**P-06-1390 Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David Morgan, ar ôl casglu 337 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei bod yn ystyried gwaredu rhai eitemau o brydau bargen, mewn ymgais i orfodi'r cyhoedd yng Nghymru o ran beth i'w fwyta, mae'r ddeiseb hon yn galw am i fwyd â chymhorthdal ddod i ben ar gyfer Aelodau o Senedd Cymru a'u staff. Pam y dylai pobl Cymru orfod dioddef yn ariannol tra bo'r rheini yn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn mwynhau prydau rhad?

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae pobl yng Nghymru wedi cael llond bol ar y tresmasu cyson ar ein bywydau gan y cyrff busneslyd yn Llywodraeth Cymru sydd am ddweud wrthym beth y dylem ei fwyta neu beidio, tra byddan nhw'n mwynhau bwyd a phrydau â chymhorthdal.

https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/390-fry-up-welsh-politicians-26304030

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru